# MEDDWL AM FFERMIO ADFYWIOL?

**Cyflwyniad i'r egwyddorion, manteision a'r camau cyntaf**


## BETH YW FFERMIO ADFYWIOL?

System o arferion amaethyddol yw ffermio adfywiol, sy'n ceisio adfer iechyd y pridd, bioamrywiaeth a'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

## PAM MYND YN ADFYWIOL?

### Y manteision allweddol posibl:

- Gwella deunydd organig y pridd, gan greu sylfaen iach a ffrwythlon ar gyfer cnydau a glaswelltiroedd a gwella'r storfa garbon
- Strwythur pridd gwell ar gyfer draeniad, awyru a thwf gwreiddiau gwell
- Annog microbiom pridd ffyniannus sy'n darparu maetholion yn naturiol i blanhigion, gan leihau'r angen am fewnbynnau artiffisial
- Hybu pori naturiol a gwahanol borthiant, gan arwain at anifeiliaid cryfach ac iachach gan gynnwys llai o feichiau parasitiaid
- Creu cynefinoedd amrywiol i wella bioamrywiaeth ar y fferm
- Gwella gallu'r pridd i gadw dŵr, gan leihau dŵr ffo posibl
- Lleihau dibyniaeth ar wrteithiau a phlaladdwyr synthetig – lleihau costau a gwella cynaliadwyedd busnes
- Adeiladu gwydnwch i sychder gyda phriddoedd sydd â capasiti dal dŵr cynyddol a rhywogaethau planhigion â gwreiddiau dwfn.



- **Croesawu rheolaeth addasol:** Arsylwch eich pridd, glaswelltiroedd a da byw yn ofalus, yna dylid addasu eich arferion yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwch. Dylid monitro a mesur ble rydych chi nawr (gan gynnwys profion mwynau'r pridd, carbon, bioleg a meinwe dail) ac olrhain eich cynnydd.
- **Rheoli pori:** Rhowch system bori cylchdro ar waith - symud da byw yn aml i ganiatáu cyfnodau pori byr, ac yna cyfnodau gorffwys hir er mwyn i'r gwreiddiau adfer.
- **Hybu amrywiaeth porfeydd:** Cyflwynwch rywogaethau planhigion amrywiol (glaswellt, codlysiau, perlysiau) sy'n addas i'ch math o bridd a'ch amgylchedd. Mae hyn yn cyfoethogi'r pridd, yn darparu porthiant amrywiol, ac yn cynyddu gwydnwch. Ystyriwch bori â byrnau i wasgaru hadau a maetholion.
- **Sicrhau perfformiad gorau posibl da byw:** Dewiswch fridiau sy'n addas ar gyfer pori gwahanol borthiant.
- **Manteisio ar faetholion:** Mynd i'r afael â diffygion maetholion a bwydo bioleg y pridd trwy ddefnyddio tail da byw/tail gwyrdd wedi'i gompostio, dewis cynnyrch biolegol, siwgr ac integreiddio cnydau gorchudd rhwng cnydau. Sicrhewch fod Carbon yn rhan allweddol o'ch strategaeth gwrtaith. Mesurwch effeithiolrwydd mewnbynnau trwy gynnal prawf Brix ar sudd dail cyn ac ar ôl gwasgaru gwrtaith.
- **Rheoli risgiau:** Byddwch yn ymwybodol o fuddsoddiadau cychwynnol ac amrywiadau tymor byr posibl mewn cynnyrch. Canolbwyntiwch ar y manteision hirdymor: costau mewnbwn is, mwy o wydnwch, a chyfleoedd marchnad newydd o bosibl.
- **Integreiddio coed a gwrychoedd:** Lle y bo'n berthnasol, ystyriwch blannu coed a gwrychoedd ar gyfer cysgod, lloches a phorthiant ychwanegol.
- **Ceisio gwybodaeth a chymorth:** Cysylltwch â ffermwyr adfywiol eraill ac edrychwch ar y gwasanaethau sydd ar gael trwy Cyswllt Ffermio i'ch cefnogi gyda'ch trawsnewidiad.

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

terrafarmer
BUILDING SOIL HEALTH FROM THE GROUND UP

FARMING connect
cyswllt FFERMIO